- Ystyried hyfforddiant gorfodol ar awtistiaeth i staff allweddol sy'n gwneud asesiadu ac yn cefnogi myfyrwyr mewn amgylcheddau ôl-16.

- Darparu canllawiau er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar gefnogaeth ehangach i fyfyrwyr ag awtistiaeth mewn amgylcheddau ôl-16, fel cymorth gyda sgiliau byw a sgiliau cymdeithasol.

- Datblygu canllawiau sy'n ymwneud yn benodol ag awtistiaeth ar gomisiynu wasanaethau a chefnogaeth i bobl ifanc ledled Cymru yn lleoli ac yn rhanbarthol.

- Cyflwyno mwy o gynlluniau ar gyfer darparwyr addysg arbenigol, fel 'Datgloi' Potensial ysgolion arbenigol' (2006).

- Gwelli'r broses o gasglu data ar gyrchfannau pobl ifanc ag awtistiaeth wedi iddynt adael yr ysgol.

- Cefnogi colegau i gael hyfforddiant ar awtistiaeth a chefnogaeth gyda sgiliau cymdeithasol a sgiliau byw.

- Adolygu ei pholisi ariannu ar gyfer pobl ifanc ag awtistiaeth sy'n ymgaisio am leoliadau mewn colegau arbenigol ar unwaith er mwyn sicrhau nad yw pobl ifanc a'u teuluoedd dan anfantais oherwydd oedi cyn cael penderfyniadau ariannu.

- Cymryd camau gweithredol penodol i ymdrin â'r bylchau rhwng gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc a syndrom Asperger fel eu bod yn gallu cael cefnogaeth well.

Dylai sefydliadau Addysg Bellach:

- Ystyried y ffordd orau o gefnogi datblygiad sgiliau cymdeithasol a chwicwilmw mwy cynhwysfawr i bobl ifanc ag anhwylderau ar y sbectwm awtistig a darparu mwy o gyfluoedd i gael cefnogaeth yn ystod amser egwyll ac amser arall heb gyswllt.

- Adolygu'r gefnogaeth sydd ganddynt ar gyfer pobl ag anhwylderau ar y sbectwm awtistig a chynhyrchu strategaeth i ymdrin â'r bylchau mewn cefnogaeth.

chynhyrchu strategaeth i fynd i'r afael â'r bylchau

yn y gefnogaeth. Yn ogystal â hyn, er mwyn

llywio'r gwaith o gynllunio darpariaeth AB yn y

dyfodol, byddai'n ddefnyddio'r pe bai Lywodraeth y

Cynulliad yn gallu dechrau casglu data ar gyrchfannau pobl ifanc ag awtistiaeth wedi iddynt

adael yr ysgol.

Rydym ni'n credu bod y prosiect ymchwil byr hwn wedi amlygu problemau mawr yn y sector AB o ran cael

gatael ar gefnogaeth i bobl ifanc ag awtistiaeth yng Nghymru. **Felly, argymhellwn fod y Pwyllgor Menter**

a Dysgu'n cynnal adolygiad byr er mwyn ymchwilio ymhellach i'r rhwystrau i gefnogaeth brodol ym

maes AB ar gyfer pobl ifanc ag awtistiaeth yn fwy trwy'r:

atom yn cydnabod hyn ond yn cyfeirio pobl atom beth

dynag am nad oes unrhyw ddewis arall".

Coleg prif ffrwd

'Er bod gennyf nifer o ddysgwyr ag awtistiaeth, nid

amgylchedd Coleg yw'r lleoliad myaf addas i bob

dysgwr. Gallai'r dysgwyr hyn eiwa ar yr amgylchedd

arbenigol a gynnigir mewn coleg preswyl."

Coleg prif ffrwd yn y De-orllewin

Roedd hyd yn oed yr ysgolion hynny a atebodd na i'r

syniad hwn yn teimlo bod rhaid i AB addasu er mwyn diwallu anghenion pobl ifanc sydd ar y sbectwm awtistig

yngh Nghymru yn well.

'Byddai'n rhaid iddo fod yn goleg preswyl, sy'n ddru.

'Fallai gellid ariannu nifer o ganolfannau rhanbarthol sydd

wedi'u lleoli'n strategol a fyddai ynghlwm wrth gollegau

staff cywir.' Ysgol Arbenigol i ddisgyblion ag anawsterau lluosog a chymhleth

dwys ac awtistiaeth yn y De-orllewin

'Gall pobl ifanc ag awtistiaeth lwyddo i gael cyrsiau, ar yr

amod bod yna rywun ar y safle i gynghori, monitro a

chefnogi.' Ysgol brif ffrwd gyda chanolfan awtistiaeth yn y De-ddwyrain

Roedd yr awgrymiadau posibl yn cynnwys hyfforddi

darlithwyr AB er mwyn gwella'u gwybodaeth a'u


deallwriaeth o awtistiaeth a gwneud mwy o ymdrech i


gynnwys pobl ifanc mewn ymarferion cynhwysiant AB.

Maer CPAg yn credu y dylai sefydliadau AB

adolygu'r gefnogaeth sydd ganddynt ar gyfer pobl

ag anhwylderau ar y sbectwm awtistig a





Y farn gyffredinol yw mai'r rheswm pennaf dros hyn yn diffyg mynediad i arian a methu â bodloni'r meini prawf ar gyfer cael cefnogaeth.

'Mae yna ddiffyg gwasanaethau amwg i bobl ag ASD, yn arbennig i'r rheiny sydd ar ben uwch y sbectwm. Er enghraifft, rhaid i ddefnyddiwr gwasanaeth fod ag IQ islaw 70 er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth gan y Tîmau Cymunedol ar gyfer Anabdeddau Dysgu. Mae hyn yn hepgor nifer o'n myfyrwyr a fydd angen i'w uchel o gefnogaeth o hyd er mwyn gallu byrn annibynnol i ryw radau, ac yn bwysicach fyth, yr help a'r gefnogaeth y bydd angen arnynt i gael gwaith.'

Coleg prif ffrwd yn y Gorllewin

'Mae pob dysgwyr yn cael anawsterau wrth geisio cael cefnogaeth ar ôl Coleg, ond mae hyn yn arbennig o anodd i ddysgwyr ag Asperger gan nad yw'r gwasanaethau i bobl ag anawsterau dysgu ar gael ac, yn aml, nid yw gwaith yn opswm ymarferol.'

Coleg prif ffrwd

Mae'r CPAg yn credu bod angen i Lywodraeth y Cynulliad gymryd camau gweithredu penodol i ymdrin â'r bwlch rhwng y gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc â syndrom Asperger er mwyn iddynt allu cael cefnogaeth.

Amlygodd yr ysgolion a'r colegau gefnogaeth sgiliau cymdeithasol yn eu hatebion, a dyma'r gefnogaeth a ofynnir amdani amlat gan oedolion hefyd yn ôl NAS Cymru. Gan ystyried hyn, mae'r CPAg yn credu y dylai darparwyr AB ystyried hefyd sut y gallant gefnogi datblygiad sgiliau cymdeithasol ymhlith eu pobl ifanc ag ASD sy'n aml yn cael anhawster gydag amser egwyl ac amser arall heb gyswilt. Rydym

wedi clywed am achosion lle mae'r myfyrwyr wedi cael cymaint o anhawster ymdopi fel eu bod wedi gadael AB yn gyfan gwbl.

Mae'r CPAg yn croesawu'r gwaith y mae Lywodraeth y Cynulliad yn ei wneud mewn ymateb i argymhellion y Fwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o ran cyfnodau trawsnewidiol. Byddai'r grŵp yn gefnogol iawn o'r syniad bod y person ifanc yn cael cynllun cymorth, neu ddatganiad) a fydd yn parhau i'w ddyddiau coleg. Rydym hefyd o'r farn pe bai Mesur Cynulliad yn cael ei ddatfio ynghylch cyfnodau trawsnewidiol, dylid cyfeirio'n benodol at awtistiaeth a phobl ifanc ag anawsterau cymdeithasol a chyfrathrebu mewn meysydd arbennig. Gallai engreifftiau gymwys hyfforddiant gortodol ar awtistiaeth i staff sy'n cefnogi myfyrwyr trwy gyfnodau trawsnewidiol ac mewn amgylcheddau ôl-16 a mwy o bwyslais ar gefnogaeth ehangach, y tu hwnt i'r hyn a geir yn academaidd, megis cymorth gyda sgiliau byw a sgiliau cymdeithasol, fel bod pobl ifanc yn fwy parod at gyfnodau nesaf eu bywydau.

A yw'r ddarpariaeth AB i blant a phobl ifanc ag awtistiaeth yn ateb y gofyn?

Yn ôl ein harolwg, nid yw 58% o ysgolion o'r farn bod yna ddiagon o ddarpariaeth AB i bobl ifanc sydd ar y sbectwm awtistig yng Nghymru, gyda rhai'n adlewyrchu barn rhai rhieni fod yna ddiffyg lleoliadau AB priodol yng Nghymru.

'Bydd fy mab yn gadael addysg yn fuan; rydym yn gortodol edych am goleg yn Lloegr. Does unman addas iddo yn Ne Cymru ar gyfer addysg ôl-16 felly mae'n rhaid i ni edych yn Lloegr am leodd sydd ddim yn rhy bell i ffrwd.'

Rhiant dyn ifanc ag awtistiaeth gymhleth.

'Rwy'n gwychod am rai plant sy'n gortod mynd allan o Gymru i gael AB.'

Athro mewn canolfan awtistiaeth o fewn ysgol gynradd brif ffrwd y Ddeddwyrair

'Mae'r cyrsiau ar gael, ond nid oes deallwriaeth o sut mae plant ASD yn dysgu.'

Athro mewn canolfan awtistiaeth o fewn ysgol uwchradd brif ffrwd y Ddeddwyrair

Yn ôl ystadegau Lywodraeth y Cynulliad, roedd y Cynulliad yn ariannu darpariaeth addysg bellach 38 o fyfyrwyr ag awtistiaeth yng Nghymru yn 2007/08, gyda 16 o'r rhain yn mynychu colegau preswyl arbennigol yn Lloegr. Mae'n amwg fod yna broblem wrth geisio sicrhau darpariaeth addysg bellach briodol yng Nghymru. Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn gallu cael gafael ar ddarpariaeth mor agos i'w cartref â phosibl.

O ran y ddarpariaeth AB sydd ar gael yng Nghymru, nododd sawl ysgol yn ein harolwg yr hoffent weid mwy o hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y setylliadau AB hynny.

'Mae'r cyrsiau ar gael, ond nid oes deallwriaeth o sut mae plant ASD yn dysgu.'

Athro mewn canolfan awtistiaeth o fewn ysgol uwchradd brif ffrwd y Ddeddwyrair

'Mae awtistiaeth yn anabledd cudd. Mae codi ymwybyddiaeth ymhlith pob aelod o bersonel colegau'n hynod bwysig er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu trin yn briodol ac yn gyfartal.'

Coleg Prif ffrwd yn y De-orllewin

'Mae angen i'r staff hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â myfyrwyr ASD gael hyfforddiant manylach. Ond mae hefyd angen mwy o ymwybyddiaeth ymhlith holl staff colegau gan fod nifer o'r problemau'n digwydd y tu allan i'r dosbarth, o fewn cymuned ehangach y coleg.'

Coleg prif ffrwd


Yn y cyfamser, amlygodd un coleg yr anawsterau o ran diwallu'r anghenion sgiliau cymdeithasol a sgiliau byw yn ogystal â'r anghenion dysgu. Hoffai'r CPAg weld Lywodraeth y Cynulliad yn cefnogi colegau i gael gafael ar hyfforddiant awtistiaeth, yn ogystal â chefnogaeth gyda sgiliau cymdeithasol a sgiliau byw.

Cyfnodd 8 o'r 9 coleg a ymatebodd eu bod yn credu y byddai Cymru'n elwa ar gael coleg AB a rieni'r gan y miadwriaeth, yn arbennig i'r rheiny ag awtistiaeth ddirffrol.

'Syniad ardderchog oherwydd gallai ddarparu'r holl feysydd sgiliau byw eraill ochr yn ochr â sgiliau cymdeithasol y cwricwlwm: ymgaisio am swyddi, technegau cyfwellad ac ati. Gallai addysgu byrn annibynnol.'

Ysgol arbennig i bobl ifanc ag amrywiaeth o anghenion cymhleth, gan gymwys awtistiaeth, yn y De-orllewin.

'Rydym dan bwysau i dderbyn ymgaisiwr ag anghenion cymhleth arbennig, ond nid ydym yn gallu diwallu eu hanghenion. Yn aml, bydd y rheiny sy'n cyfeirio pobl



Trychinebus i bobl ifanc â'r lfeil hon o angen. Mae'n gwned yr adolygiadau trawsnewidiad blynyddol o 13/14 oed yn yr ysgol yn hollol ddiwertn.

Rhiant dyn ifanc ag awtistiaeth ddiffriol

Mae'r CPAg yn credu nad oes angen yr oedi hwn cyn gallu gwneud cais a chael penderfyniad ar ariannu, ac mae'n cael effaith andwyl ar yr unigolyn ifanc ag awtistiaeth, y teulu a choleg y lleoliad. Hoffem weld Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi blaenoriaeth i newid y polisi yn y maes hwn.

Materion penodol ar gyfer pobl ifanc â syndrom Asperger

Mae 75% o'r ysgolion a arolygwyd yn credu bod gan bobl ifanc â syndrom Asperger faterion penodol wrth geisio cael cefnogaeth barhaus yn y coleg. Rhai enghreifftiau o'r materion hyn yw eu paratoi ar gyfer cyflogaeth a'u cynorthwyo i gael gwaith, diffyg

cefnogaeth wedi'i haddasu i bobl ifanc â syndrom Asperger yn aml yn anodd. Cydnabur'r colegau bod angen cymorth gyda sgiliau cymdeithasol a sgiliau byw ar bobl ifanc sydd ar ben uwch y sbectwm, ond eu bod yn cael anhawster darparu'r mathau hyn o gefnogaeth i bobl ifanc yn aml.

'Mae genny'm lawer o brofiad o gefnogi dysgwyr ag anawsterau dysgu diffriol ochr yn ochr â'u hawtistiaeth, ond rydym yn dechrau cael mwy a mwy o ddysgwyr ag anawsterau dysgu diffriol ond sydd â sgiliau amawsterau dysgu cymedrol ond sydd â sgiliau cymdeithasol gwael ofnadwy. Yr anhawster yn y fan hon yw diwallu eu hangenion dysgu yn ogystal â'u hangenion sgiliau cymdeithasol a sgiliau byw.'

Coleg prif ffrwd yn y De-orllewin

Er mwyn gwella'r cyfnod trawsnewidiad, awgrymodd y colegau y dylid cael mwy o ddiwrnodau bias ar addysg bellach' a 'rhaglenni cyswllt ysgolion'.

'Mae genny'm gysylltadau agos ag ysgolion bwydo gyda staff y coleg yn mynychu adolygiadau'r ysgol pan fo'n bosibl. Mae gan ysgolion bwydo raglen o ymweiliadau â'r Coleg yn nhymer y gwahanyn, gyda myfyrwyr yn treulio amser yn y Coleg gyda'u staff cymorth mewn rhai achosion. Mae'r coleg yn cynnal cwrs cynefino 3 diwrnod ym mis Gorffennaf i bob dysgwyr newydd yn yr adran. Mae hyn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddod yn gyfarwydd ag amgylchedd y coleg, i roi cynnig ar rai o'r gwersi ac i gwrrdd â dysgwyr eraill.'

Coleg prif ffrwd

Arian ar gyfer lleoliadau mewn Colegau Arbenigol

Mae'r broses ariannu o ran gwneud cais am leoliadau mewn Colegau Arbenigol yn broblem fawr sy'n cael sylw'n aml yn yr grŵp ac yn un yr hoffem i Llywodraeth y Cynulliad wneud rhywbeth yn ei chylch ar frys. Mae ysgolion a cholegau wedi amlygu pwysigrwydd cynllunio'r cyfnod trawsnewidiad a chreu cyfleoedd ar gyfer

diwrnodau bias a chyfleoedd i bobl ifanc ddod yn gyfarwydd â'u hamgylchedd newydd, yn ogystal â chysleu'r staff ddeall mwy am angenion cymorth unigol pobl ifanc. Fodd bynnag, mae'r grŵp yn deall nad yw rhieni'n gallu gwneud cais am arian ar gyfer lleoliadau mewn colegau arbennig ar hyn o bryd tan ddiwedd mis Ionawr, pan fo'r myfyrwr i fod i ddechrau'r coleg y mis Medi hwnnw.

'Rwy'n gwbod am nifer o rieni pobl ifanc ag awtistiaeth ddiffriol sydd wedi cael penderfyniad ar ariannu lai nag wythnos cyn i'w plentyn ddechrau yn y coleg.'

hwnnw.

Problemau Trawsnewidiad

Gall y cyfnod trawsnewidiad fod yn amser arbennig o anodd i bobl ifanc ag awtistiaeth, gan fod natur eu cyflwr yn gallu golygu eu bod yn cael anhawster ymdopi â newid. Mae'n bosibl y byddant yn cael anhawster dychmygu unrhyw beth y tu hwnt i'w trefn ddyddiol

arterol hefyd, fel beth yr hoffent ei wneud yn y dyfodol. Oherydd hyn, mae'n hanfodol bod y cyfnod trawsnewidiad'n cael ei gynllunio'n effeithiol ac yn gynnar.

Er gwaethaf hyn, mae ein hymchwili yn dangos bod 50% o ysgolion wedi cael problemau wrth i'w pobl ifanc symud ymlaen i addysg bellach.

'Dyn ni byth wedi gallu rhoi plentyn mewn sefyliad AB am na allant ddarparu'r gefnogaeth unigol sydd ei hangen ar benty'n.'

Athro mewn ysgol arbennig yn y De

Gwaethom ofyn i golegau am eu profiadau o gyfnodau trawsnewidiad hefyd. Cyfunodd pob coleg a ymatebodd i'r arolwg y gallai'r gefnogaeth fod yn well i bobl ifanc wrth iddynt symud o'r ysgol i'r coleg.

Gwaeth 25% o'r ysgolion sydd wedi cael problemau gyda'r cyfnod trawsnewidiad bwysleisio mair prif reswm dros y problemau hyn yw diffyg hyfforddiant a gwoboddaeth am awtistiaeth ymhlith staff AB. Roedd 4 o'r 9 coleg (44%) yn cytuno bod yna diffyg ymwybyddiaeth a hyfforddiant mewn perthynas ag awtistiaeth ymhlith staff a bod angen mwy o arbenigedd arnynt.

'Dyw bod yn gymwynasgar a dangos diddordeb ddim yn ymrodde dig a fydd yn gwella ansawdd y ddarpariaeth yn ddigon; rhaid i staff ymrodde dig gael hyfforddiant gyffredinol.'

Darparwr AB prif ffrwd yn y Gogledd-ddwyrain

'gael yn y sector prelat yn syfrdanol.'

'Ysgol Arbennig i ddisgyblion ag anawsterau lluosog a chymhleth dwys ac awtistiaeth yng Nghanol De Cymru.'

Amlygwyd mynediad i gymorth trwy gyfrwng y Gyrraeg fel problem hefyd, o ran cael gafael ar ddarpariaeth addysgol briodol ond hefyd o ran cefnogaeth yn yr ysgol.

'Mae yna ddigon o broblemau cyfathrebu heb orfod ymdopi ag iaitn anghyfarwydd.'


'Ysgol arbennig yn y Gogledd-orllewin'

Cyfraddfodd 57% o'r ysgolion gwladol hynny a gwblhaodd yr holladur eu bod yn teimlo nad ydynt yn gallu cystadlu â'r sector annibynnol. Roedd hyn yn fwyaf penodol o ran adnoddau, mynediad i therapyddion llefydd ac iaitn, therapyddion galwedigaethol a chyfleoedd hyfforddi i staff cymorth.

'Mae angen cytuno ar leiau cymorth ledled Cymru er mwyn sicrhau bod gwasanaeth o safon benodol ar gael i bwyb. Dylai gael ei fonitro gan Llywodraeth y Cynulliad'

'Ysgol arbennig yng Nghanol y De'

Mae'r CPAg Awtistiaeth yn credu y dylai pob unigolyn ifanc ag awtistiaeth allu cael gafael ar ddarpariaeth addysg leol sy'n briodol i'w hangenion. Mae'r CPAg hefyd yn argymhell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyflwyno mwy o gynlluniau ar gyfer darparwr addysg arbennigol, fel Datglo Potensial ysgolion arbennig (2006). Mewn achosion lle mae arian wedi bod ar gael, mae'r ysgolion wedi nodi ei fod wedi bod yn fuddiol iawn.



Cynllun Gweithredu ar gyfer Anhwyldeirau'r Sbectrwm Awstisig (ASD) – ddim yn gweithio?

Yn mis Ebrill 2008, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Gynllun Gweithredu Strategol Cymru ar gyfer Anhwyldeirau'r Sbectrwm Awstisig (ASD) er mwyn sbarduno gwelliannau ar draws gwasanaethau i blant, pobl ifanc ac oedolion yn meysydd iechyd, pobl ifanc ac oedolion yn meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Mae gweithio ar y cyd a chael asiantaethau i ddod at ei gilydd i gynllunio ar gyfer sicrhau gwell mynediad i wasanaethau a chefnogaeth i bobl ag awstistaeth a'u teuluoedd yn ganolog i'r cynllun. Mae CPAG yn cefnogi'r cynllun.

Yn unol â'r cynllun, dylai asiantaethau lleol ddod ynghyd trwy grŵp rhandeddiadaid lleol a mynd ati i ddatblygu trwy grŵp rhandeddiadaid lleol. Bydd y cynllun yn seiliedig ar ddata a gesglir yn lleol am nifer y plant a phobl ifanc sydd ag awstistaeth yn eu hardal ac ymarfer mapio sy'n nodi'r ddarpariaeth gyfredol a'r bylcchau sy'n bodoli mewn gwasanaethau a chefnogaeth yn lleol⁵.

Nododd ein hymchwili mai dim ond 46% o ysgolion oedd yn meddwl fod awstistaeth yn flaenoriaeth i'w Hawdurdod Addysg Lleol (ALL). O'r ysgolion eraill, roedd nifer o'r farn y gallai eu ALL wneud mwy i flaenoriaethu awstistaeth ac roedd 20% yn teimlo nad oedd eu ALL yn rhoi unrhyw flaenoriaeth i awstistaeth. Mae yna wahaniaeth amhwng yma rhwng yr ymrodolad a ddangosir gan Lywodraeth y Cynulliad tuag at awstistaeth a'r lfeleau o ymwybyddiaeth a phrif ffrydio gwybododaeth am y cynllun a'i oblygiadau yn lleol.

Nid oedd y materion a godwyd gan ddarparwyr arbenigol yn ymwneud â darpariaeth addysg yn unig. O ran y prif feysydd sy'n peri gofid mewn perthynas â chefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, mae ysgolion yn ymwybodol

iawn o'r rhystrau sy'n wnebu rhieni wrth geisio cael gafael ar amrywiaeth eang o gefnogaeth. Yn wir, mae 75% o ysgolion o'r farn nad oes yna ddigon o ddarpariaeth lleol ar gyfer y bobl ifanc y maent yn eu cefnogi. Yn benodol, dywedodd bron hanner yr ymatebwyr wrthym ei fod yn anodd iawn cael gafael ar sebiannau byr a chefnogaeth i rieni y tu allan i oriau ysgol.

'Mae nifer o rieni'n cael anhawster sicrhau gofal sebiant.' Athro mewn canolfan awstistaeth sydd ynghlwm wrth ysgol gyrradd brif ffrwd yn y De-ddwyrain

Gwyddom fod y gallu i gael darpariaeth sebiannau byr i Gwyddom fod y gallu i gael darpariaeth sebiannau byr i bobl ifanc ag awstistaeth yng Nghymru'n anghyson dros ben. Yn wir, yn ôl Rhwydwaith Rhannu Gofal, mae plant sy'n dioddef o anhwylderau'r sbectrwm awstisig ymhlith y rheiny sy'n aros hiraf am sebiannau byr⁶. Serch y ddarpariaeth sebiannau byr generig sydd ar gael o fewn awdurdodau, yn aml bydd darparwyr prif ffrwd yn cael traffert ymdopi ag anghenion plant a phobl ifanc ag awstistaeth, sy'n golygu ei bod hi bron yn amhosibl i rieni gafael ar y gefnogaeth briodol.

Mae'r CPAG yn credu y dylai'r awdurdodau lleol fod yn defnyddio rhan o'r arian cyrchol y maent yn ei dderbyn gan Lywodraeth y Cynulliad i gefnogi plant a phobl ifanc ag awstistaeth, a'i wario'n benodol ar wasanaethau sebiant byr⁶. Mae'r grŵp hefyd yn argymhell y dylai Pwyllgor Iechyd, Les a Llywodraeth Leol y Cynulliad archwilio pa mor hawdd yw hi i blant a phobl ifanc ag awstistaeth a'u teuluoedd gael gafael ar wasanaethau sebiant byr.

Mae'r CPAG yn credu y dylai asiantaethau lleol, ac yn arbennig, yr asiantaeth/gweithiwr blaen penodol lleol fod

⁵ Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i'r gwaith hwn gymwys oedolion hefyd
⁶ Rhannu'r Gofal (2007) Still Waiting: Families of Disabled Children in the UK waiting for Short Break Services

yn trafod â darparwyr addysg arbenigol yn yr ardal lleol sydd mewn sefyllfa unigryw i allu darparu gwybododaeth ar gyfer y darlun cyfredol o wasanaethau a chefnogaeth, yn enwedig y bylcchau yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, gan ystyried y dystiolaeth a ddarperir yn y papur hwn, mae'r CPAG hefyd yn credu y dylai gwasanaethau cofleidiol ar gyfer pobl ifanc ag awstistaeth, gan gynnwys sebiannau byr, gael eu hystyried yn flaenoriaeth mewn cynlluniau awstistaeth lleol. Mae'r CPAG yn cefnogi argymhellad ESTYN y dylai awdurdodau lleol gynllunio gwasanaethau'n strategol mewn partneriaeth ag eraill er mwyn cynnig cefnogaeth anadlysgol effeithiol, ar y cyd â chefnogaeth yn yr ysgol, i ddisgyblion sydd ag anghenion arbennig cymhleth ac i'w teuluoedd.⁷

Cydwethredu lleol a rhanbarthol

Ni ellir gorbwysieisio pwysigrwydd cydwethredu wrth sicrhau bod unigolyn ifanc ag awstistaeth yn gallu cael gafael ar amrywiaeth eang o wasanaethau a chefnogaeth yn ei ardal yn hawdd. Er gwaetha'r cymydd mewn strwythurau i hwyuso cydwethreddiead, nododd 50% o'r ysgolion a gymetodd ran yn ein hymchwili eu bod yn parhau i gael anhawster wrth geisio cydwethredu er mwyn cynllunio ar gyfer darpariaeth i blant a phobl ifanc ag awstistaeth yn lleol ac yn rhanbarthol.

'Mae'r Cynllun Datgof Potensial wedi hyrwyddo pethau yn y system addysg, ond mae angen llawer mwy o drefnu rhwng meysydd addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.' Athro mewn ysgol arbenigol Cymraeg yn Ynys Môn.

'Weithiau mae llawer gormod o bobl yn cymryd rhan a does dim byd yn cael ei gyflawni.'

Athro mewn ysgol arbennig yn y Gogledd-ddwyrain

Mae hwn yn offid mawr; rhaid i asiantaethau lleol gydweithio i gyflawni'r cynllun yn lleol, ond nawr bydd yna fwy o gyfleoedd i asiantaethau ddod ynghyd i gynllunio ar gyfer gwasanaethau llai cyffredin, cost uchel yn rhanbarthol. Bydd y cynllunio hwn yn cael ei gefnogi gan gysylltwyr rhanbarthol a leolir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Fel rhan o'r cynllun gweithredu ar gyfer ASD, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio dosbarthu canllawiau i Awdurdodau Addysg Lleol (ALL) ar ddatblygu darpariaeth rhanbarthol o nwyddau a gwasanaethau i blant a phobl ifanc ledled Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau'n benodol ar gyfer awstistaeth.

Mae'r CPAG yn credu y gallai asiantaethau lleol elwa ar gael mwy o ganllawiau sy'n ymwneud yn benodol ag awstistaeth ar gyfer comisiynu gwasanaethau a chefnogaeth i bobl ifanc ledled Cymru, yn lleol ac yn rhanbarthol.

Gwahaniaethau ar draws y sector

Yn aml, mae gan blant a phobl ifanc ag awstistaeth angenion addysgol cymhleth iawn sydd angen amrywiaeth o gymhorthion dysgu, staff cymorth, therapi llefydd ac iatth ac adnoddau ysgogtr synhwyrau er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial academaidd. Fodd bynnag, mae nifer o'r ysgolion gwladol arbenigol a ymatebodd i'n harwng yn teimlo nad oes ganddynt yr arian i ddarparu'r adnoddau hyn i bob myfyrwr.

'Mae angen mwy o gefnogaeth seicolegol a seiciatrïg arnom. Mae lfeil y gefnogaeth therapi llefydd yn chwethrnillyd... [Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad] annog darpariaeth bwrpasol, sy'n ystyriol o awstistaeth ac wedi'i chynllunio'n ofalus. Mae'r cyflusterau sydd ar

⁶ Ers 2007, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi £1.7 miliwn i awdurdodau lleol yng Nghymru trwy'r grant cynnal reffeniw ar gyfer plant a phobl ifanc ag awstistaeth. Mae £0.7miliwn o'r arian hwn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol
⁷ ESTYN (Hydref 2008) Lleoideaau awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd a darpariaeth breswyl gysylltiedig 52 wythnos t.7

awtistiaeth. O'r rhain, mae oddeutu 6,000 ohonynt yn blant a phobl ifanc dan 18 oed. Gall diffyg darpariaeth brodol ar gyfer plant ag awtistiaeth mewn ysgolion gael effaith andwylol ar blant ag awtistiaeth a'u teuluoedd, ac mae'n effeithio ar gymdeithas yn gyffredinol.

Y cefndir i'r papur hwn

Nod y papur hwn yw amlygu'r prif faterion sy'n peri gofio i ddarparwyr addysg awtistiaeth arbenigol yng Nghymru. Gwnaed yr ymchwil ar gyfer y papur hwn gan y Grŵp Trawsbleidiol Awtistiaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru (CPAG). Cadeirir y grŵp gan Janet Ryder AC. Cynhaliwyd yr ymchwil yn dilyn pryderon penodol o ran treftu ac ariannu darpariaeth addysg brodol i bobl ifanc Nghymru, a godwyd yng nghyfarfod Ebrill 2008 y CPAG. Er mwyn ymchwilio i rai o'r materion hyn, a cheisio creu darlun o ddarpariaeth arbenigol ledled Cymru, anfonwyd holiaduron i ysgolion yng Nghymru gydag

arbenigedd mewn awtistiaeth. Roedd y rhain yn cynwys ysgolion arbennig statudol ac annibynnol, yn ogystal ag ysgolion prif ffurwd gydag adnoddau ar gyfer awtistiaeth. Derbyniwyd 24 ymateb, a chafwyd sampl gymharol gynrychioliadol o bob cwr o Gymru. Cafwyd ychydig llai na hanner yr ymatebion hyn gan ysgolion arbennig ac roedd 88% o'r ysgolion a gymerodd ran yn sefydliadau a noddir gan y wladwriaeth. Cafwyd dau ymateb trwy gyfrwng y Gyrraeg:

O ganlyniad i'r data a gawsom gan ysgolion ym mis Tachwedd 2008, anfonwyd holiaduron i ddarparwyr addysg bellach (AB) yng Nghymru hefyd er mwyn gallu cymharu safbwyntiau. Derbyniwyd 9 ymateb, a'r cwbl o golegau prif ffurwd. Buom yn casglu tystiolaeth rhwng mis Medi a mis Mawrth 2009. Dyma'r adroddiad terfynol ar bŵl ganfyddiadau'r ymchwil.

¹ Mae'r term awtistiaeth yn yr adroddiad hwn yn cwmpassu pawb ar y sbectrwm awtistig, gan gynnwys syndrom Asperger a themau diagnostig eraill a ddefnyddir ar gyfer cyhyrau ar y sbectrwm awtistig.

² Mae Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru'n darparu'r ysgreffenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol Awtistiaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r grŵp yn dwyn ynghyd Aelodau Cynulliad, gweithwyr profesiynol, pobl ag awtistiaeth a rhieni ac yn cyfarfod yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Ei nod yw codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo buddiannau pobl ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig, eu teuluoedd a'u gofalu.

³ Anfonwyd holiaduron dwyieithog i'r ysgolion

Trosolwg o'n canfyddiadau

O'r ymatebion a gawsom, mae'n ymddangos nad yw darparwyr addysg awtistiaeth arbenigol yn fodlon â'r gwaith cydgyssylltu a chynllunio lleoli ac maent yn poeni nad yw Addysg Bellach yn diwallu anghenion pobl ifanc sydd ar y sbectrwm awtistig yng Nghymru.

Dangosodd ein canfyddiadau fod:

- 75% o ysgolion yn teimlo nad oes yna ddigon o ddarpariaeth leoli i'r bobl ifanc y maent yn eu cefnogi (mae hyn yn cynwys sebiannau byr, gwasanasanaethau cofreidiol ac ati)
- 50% o ysgolion yn dweud eu bod yn cael anhawster cydwethio'n lleoli
- 58% o'r ysgolion o'r farn nad oes digon o ddarpariaeth AB i bobl ifanc sydd ar y sbectrwm awtistig yng Nghymru

Awtistiaeth ac Addysg

Mae Awtistiaeth¹ yn anabledd datblygiadol gydol oes sy'n effeithio ar y ffordd y mae unigolyn yn cyfathrebu ac yn creu perthynas â phobl eraill. Mae hefyd yn effeithio ar y ffordd y maent yn gwneud synwyr o'r byd o'u hamgylch. Mae'n gyflwr sbectrwm, sy'n golygu er bod pawb ag awtistiaeth yn rhannu tri phrif faes o anhawster (anhawster rhyngweithio'n gymdeithasol; cyfathrebu cymdeithasol a dychmygu cymdeithasol), bydd y cyflwr yn effeithio arnynt mewn gwahanol ffyrdd. Gall rhai pobl ag awtistiaeth fyw bywydau eithaf annibynnol ond bydd eraill yn gortod cael gofal arbenigol gydol oes o bosibl. Gall pobl ag awtistiaeth brofi rhyw fath o sensitifrwydd sensitifrwydd tuag at synau, cyffryddiad, biasau, arogleuon, goleuadau neu liwiau.

Yn ôl ffigurau Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, mae gan dros 25,000 o bobl yng Nghymru

Rhagair y Cadeirydd

Rwy'n falch o allu cyflwyno'r darn hwn o waith a ysbyrdolwyd gan bryderon a godwyd yn ein cyfarfodydd ynghŷn â darpariaeth addysg uwchradd ac ôl-16 i bobl ifanc ag awtistiaeth. Gwnaethom y gwaith hwn gydag adnoddau cyfyngedig gyda'r nod o sbarduno trafodaeth, a chamanu gweithredu gobethio, gan y rheiny sy'n llywio polisiau a gwariant. O ganlyniad i'r adnoddau cyfyngedig oedd gennynt, seilwyd yr argymhellion ar yr ymatebion hynny a gawsom ac ar y materion a godwyd droeon ynghyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol Awtistiaeth gan rieni a gofalwyr.

Rhaid i mi bwysieisio bod yr holl ganlyniadau, tybiaethau ac argymhellion yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar yr ymatebion a gawsom, ond maent yn adlewyrchu'r straeon a'r profiadau a glywir droeon gan rieni a phobl ifanc. Fodd bynnag, fe wnaethon ni ganfod engreftffitau o arferion da a gallai fod yna fwy o engreftffitau ymhlith y rhai eraill na ymatebodd. Pan fydd arferion da yn bodoli, dyllid eu hamlygu a'u defnyddio fel esiampl i eraill.

Janet Ryder AC

Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol Awtistiaeth


gefnog'r Grŵp Trawsbleidiol.

Witthers am y gwaith y mae hi wedi'i wneud yn arbennig i gelegau a'r ysgolion hynny sy'n cynnig bobl, y collegau a'r ysgolion hynny sy'n cynnig eu safbwyntiau'n bwysig iawn, gan gynnwyschioli llaws o'r Hoffwm ddiolch i bob un o'r rheiny a wnaeth ymateb. Mae



Cipolwg ar ddarpariaeth addysg awtistiaeth arbenigol yng Nghymru

Adroddiad ar ein canfyddiadau ymchwil gan y Grŵp
Trawsbleidiol Awtistiaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol
Cadeirwyd gan Janet Ryder AC
Gan Liz Withers Mai 2009



Sefydlwyd Grŵp Trawsbleidiol Awtistiaeth y Cynulliad
Cenedlaethol yn 2002, ac ers hyn mae'r grŵp wedi dod
ag unigolion a theuluoedd, pobl profresynol ac Aelodau
Cynulliad at ei gilydd er mwyn trafod materion sy'n
effeithio ar bobl ag awtistiaeth, eu teuluoedd a'u
gorfalyr. Ei nod yw i godi ymwybyddiaeth o'r cyflwyr ac
i hyrwyddo diddordebau'r sawl a'u
heffeithiwyd arnynt gan awtistiaeth yng Nghymru.

Mae'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru yn
darparu'r ysgrienyddiaeth i'r Grŵp Trawsbleidiol
Awtistiaeth.

Am fwy o wybodaeth am y Grŵp Trawsbleidiol Awtistiaeth
cysylltwch â:

Y Grŵp Trawsbleidiol Awtistiaeth
Y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru
6-7 Village Way
Parc Busnes Greenmeadow Springs
Tongwynlais
Caerdydd
CF15 7NE

Ffôn: 02920 629 316

E-bost: cpag@nas.org.uk

Gwefan – www.autism.org.uk/cpag

Hawffraint © y Grŵp Trawsbleidiol Awtistiaeth
yn Cynulliad Cenedlaethol 2009

Cyhoeddwyd gan y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth